

MATHEMATEG YN Y BRIFYSGOL



Pam dylwn i astudio mathemateg yn y brifysgol?

Sylwadau pobl

"Ro'n i bob amser yn hoffi datrys problemau wrth wneud mathemateg Safon Uwch, felly dyna pam dewisais i hwn fel pwnc gradd. I ddechrau, doedd gen i ddim syniad beth fyddai fy ngyrfa yn y dyfodol ond nawr, wrth raddio, dwi'n chwilio am swyddi ym maes cyllid neu fel ystadegydd" (Habib, 22, myfyriwr blwyddyn olaf, BSc Mathemateg).

Pa yrfaodd sydd ar agor i chi gyda gradd mewn mathemateg?

Mae mathemateg yn agor llawer o ddrysau; ym myd busnes, cyllid, rheoli, TG, ymchwil, dysgu ac ati. Ewch i www.mathscareers.org.uk am ragor o fanylion.

Sut gallaf i elwa ar radd mewn mathemateg?

Weithiau mae gradd mewn mathemateg yn barhad o'ch gwaith ysgol ac weithiau mae'n mynd â chi i feysydd hollol newydd.

Yn ogystal â'r fathemateg, byddwch chi'n datblygu'r gallu i fod yn rhesymegol, dadlau'n gall, deall syniadau haniaethol a datrys problemau ymarferol - sgiliau y mae cyflogwyr yn eu gwerthfawrogi.


$$\frac{x^2}{p^2} + \frac{y^2}{q^2} = 1$$

Cwestiynau y dylech chi eu gofyn

- Beth mae graddedigion o'r cwrs hwn yn ei wneud ar ôl eu gradd?
- Pa gyfran o'r graddedigion sy'n cael swyddi cyn pen chwe mis ar ôl gadael y cwrs? Pa gyfran sy'n mynd ymlaen i astudio ymhellach?
- Ydy'r cwrs hwn yn fy helpu i ddatblygu sgiliau fel gweithio mewn tîm, sgiliau TG, gwneud cyflwyniadau ac ysgrifennu adroddiadau?

MATHEMATEG yn y BRIFYSGOL ...

ar gipolwg



Cael lle yn y brifysgol i astudio mathemateg

cwestiynau y dylech chi eu gofyn

Pa ganlyniadau Safon Uwch sydd eu hangen?

Does dim angen bod yn athrylith i astudio mathemateg yn y brifysgol, does dim angen gradd Safon Uwch wych, ond bydd gradd uchel yn rhoi mwy o ddewis o brifysgolion i chi. Mae rhai prifysgolion yn argymhell Mathemateg Bellach.

Oes angen i mi astudio Mathemateg Bellach?

Nac oes, ond mae pynciau Mathemateg Bellach yn uniongyrchol berthnasol i'r fathemateg y byddwch chi'n ei hastudio yn y brifysgol. Dyna pam efallai bydd myfyriwr sydd wedi'i hastudio yn teimlo bod eu blwyddyn gyntaf yn y brifysgol yn llawer haws a'u bod nhw'n gwneud gwell cynnydd.

Dwi ddim wedi astudio Mathemateg Safon Uwch. Gaf i astudio mathemateg yn y brifysgol o hyd?


Cewch. Mae prifysgolion yn aml yn derbyn myfyriwr aeddfed heb Fathemateg Safon Uwch, ond byddan nhw'n gofyn i chi wneud cwrs sy'n cyfateb i Safon Uwch cyn i chi ddechrau ar radd fel arfer.

Gaf i gymryd blwyddyn allan cyn astudio mathemateg?

Cewch, ond efallai y byddwch chi wedi anghofio peth o'ch Mathemateg Safon Uwch. Dylai ychydig o adolygu ddatrys hyn yn gyflym serch hynny.

Oes angen i mi gymryd STEP/AEA er mwyn astudio mathemateg yn y brifysgol?

Efallai bydd nifer bach iawn o brifysgolion yn gofyn i chi gymryd Sixth Term Exam Paper (STEP) neu Advanced Extension Award (AEA) yn rhan o'u cynnig amodol.



Dewis prifysgol

Ydw i'n gallu astudio mathemateg gyda phwnc arall?

Ydych. Mae llawer o brifysgolion yn cynnig cyrsiau sy'n cyfuno mathemateg â phwnc arall, e.e. cyllid, busnes, ffiseg, cyfrifiadura neu economeg.

Ydy pob gradd mewn mathemateg yr un fath?

Nac ydy. Mae safon genedlaethol wedi'i chytuno ar gyfer graddau mathemateg ond dau bwnc yn unig y mae'n rhaid i bob cwrs eu cynnwys felly mae digon o gyfle i brifysgolion gynnig pethau gwahanol iawn. Hyd yn oed gyda'r un maes llafur bras, mae

prifysgolion yn gallu ymdrin â phynciau mewn ffyrdd gwahanol iawn.

Pa radd mewn mathemateg sydd orau i mi?

Mae'n dibynnu beth sydd o ddiddordeb i chi, eich barn am faint dosbarthiadau a lefel y gefnogaeth y gallech chi ei chael, ydych chi eisiau dewis eang o bynciau neu a ydych chi'n cyfuno mathemateg â phwnc arall, a beth rydych chi eisiau ei wneud ar ôl gadael y brifysgol.

Cwestiynau y dylech chi eu gofyn

- Ydy'r cwrs yn ddamcaniaethol ac yn haniaethol iawn neu'n ymarferol a chymhwysol yn bennaf?
- Ydy'r radd yn cynnwys lleoliad profiad gwaith?
- Faint o ddewis rwy'n ei gael o ran y pynciau rwy'n eu hastudio?

Mathemateg yn y brifysgol

Beth yw ystyr mathemateg 'bur' a 'chymhwysol' yn y brifysgol?

Gyda Mathemateg Bur, rydych chi'n astudio syniadau a strwythurau mathemategol er eu mwyn eu hunain o ran diddordeb yn unig. Mae Mathemateg Gymhwysol yn edrych ar sut mae modd cymhwysio mathemateg i fywyd go iawn wrth astudio problemau ymarferol. Mae'r rhan fwyaf o brifysgolion yn cynnig cyrsiau mewn Mathemateg Bur, Gymhwysol ac Ystadegau ac rydych chi'n debygol o astudio pob un o'r rhain yn eich blwyddyn gyntaf.

Sylwadau pobl

"Mae cyflogwyr yn chwilio am sgiliau datrys problemau, rhesymeg a sgiliau chyfrifiannol sy'n cael eu datblygu wrth astudio mathemateg yn y brifysgol ac felly, mae astudio mathemateg yn cynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd o ran gyrfa" (Victoria, 22, myfyriwr graddedig, MMath).

Sut byddaf i'n cael fy asesu?

Mewn rhai prifysgolion bydd eich asesu bron i gyd drwy arholiad ond, mewn prifysgolion eraill, efallai bydd llawer o gredydau'n cael eu rhoi am waith cwrs.

Pa gefnogaeth sydd ar gael i mi?

Sesiynau arbennig gyda myfyriwr o flynyddoedd uwch, grwpiau tiwtorial bach, sesiynau galw heibio gan ddarlithwyr, fforwm ar-lein ac e-bost, ac ati.

Beth fyddaf i yn ei astudio?

Mae hyn yn dibynnu'n llwyr ar y brifysgol, gyda dau bwnc yn unig yn orfodol ym mhob cwrs.

Sut mae technoleg yn cael ei defnyddio?

Ar gyfer cwrs mathemateg, efallai y bydd disgwyl i chi ddatblygu sgiliau arbenigol, fel rhaglennu a defnyddio systemau algebra cyfrifiadurol.

Cwestiynau y dylech chi eu gofyn

- Beth yw agwedd y cwrs tuag at ddefnyddio technoleg o fewn mathemateg?
- Sawl awr yr wythnos o addysgu y byddaf i'n eu cael?
- Pa gefnogaeth sydd ar gael?
- Faint sy'n cael ei asesu drwy arholiadau a faint drwy waith cwrs?
- Fyddaf i'n cael cyfle i wneud prosiect unigol yn y flwyddyn olaf?